

Cofnodion cyfarfod Chwefror 4ydd, 2021 (*Teams*)

Presennol: Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Elin Hedd, Tony Parry, Alun Price

Lis Puw (*Clerc*).

Ymddiheuriadau: Sharon Evans, Ivora Jones, Eluned Jones, Carol Rowlands, John Caradog Williams
Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd)

1. **Croesawyd y Cynghorwyr** gan y Maer, a gyfeiriodd at y rhaglen frechu sy'n digwydd yn y Ganolfan Hamdden bob dydd Sadwrn. Cytunwyd i anfon llythyr o ddiolch i bawb gan gynnwys y gwirfoddolwyr am waith effeithiol a diffwdan yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith o ddiogelu trigolion Y Bala. Mae pethau'n symud ymlaen gydag addysg gartref yn Ysgol Godre'r Berwyn.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau buddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ionawr 7fed, 2021.
4. **Materion y Clerc:**
 - i. Ciosg y Stryd Fawr: Mae'r Seiri Rhyddion wedi gwirfoddoli i ariannu'r di-ffib ac mae aelodau wedi bod yn paratoi'r ciosg ar gyfer gosod yr offer ynddo. Diolchwyd yn fawr iawn am y caredigrwydd hwn. Cytunwyd i'r Clerc holi am brisiau plac i gydnabod eu cyfraniad, ac i drafod y pris a'r geiriad gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Bydd angen trefnu llun ac eitem yn y Wasg pan fydd agoriad swyddogol.
 - ii. Bin baw ci yng Nghysgod y Coleg: nid oes gwybodaeth wedi dod i law gan Gyngor Gwynedd hyd yn hyn.
5. **Cyngor Gwynedd:** Nid oedd Adroddiad.
6. **Cyfleusterau Cyhoeddus ac ardoll parcio:** Cynhaliwyd cyfarfod ar y we gyda Steffan Jones. Nid yw ein cais am ad-doll parcio wedi ei ateb ers bron i dair blynedd gan Adran Amgylchedd. Cytunwyd i ddal nôl rhag gwneud cyfraniad tuag at y toiledau hyd nes y bydd mater yr ad-doll yn cael ei ddatrys.
7. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Tony Parry a ddywedodd fod cyfarwyddwr y prosiect yn awgrymu rhoi cyflwyniad byr i'r Cyngor ym mis Ebrill, gan fod Parc Cenedlaethol Eryri yn parhau i ystyried gwahanol agweddau o'r cais cynllunio.
8. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Alun Price o gyfarfod ardal Meirionnydd. Cafwyd cyflwyniad i gynllun datblygu'r Parc Cenedlaethol. Sylwyd bod y Cynllun wedi ei gyhoeddi yn Nhachwedd, ond roedd Parc Cenedlaethol Eryri yn holi barn cynghorau ym mis Rhagfyr.

9. **Is-bwyllgorau:** Bydd Is-bwyllgor y Nadolig yn ceisio cyfarfod yn fuan, ac yn ceisio cyfarfod gydag arbenigwr yn y maes goleuadau Nadolig.

10. **Materion Cynllunio:** Cymeradwywyd cais NP5/53/582 i adeiladu estyniad cefn yn lle ystafell wydr presennol, 22 Mawnog Fach.

11. Materion Cyllid:

- i. Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf (e-bostiwyd), yn cynnwys derbyn ad-daliad £1,600 Y Domen
- ii. Cytunwyd i dalu Cyflog y Clerc (mis Ionawr)
- iii. Ystyriwyd ceisiadau am arian: Oherwydd nad ydyw Cymdeithasau wedi gallu cyfarfod (heblaw dros y we) yn y flwyddyn ariannol hon, ac oherwydd nad ydynt wedi gallu creu mantolen a dangos anfonebau, nac ychwaith creu cynlluniau ar gyfer y cyfnod ol-Covid, **cynigwyd a chytunwyd** i ohirio dyrannu yn y cyfarfod hwn; cytunwyd i adolygu'r sefyllfa Cyfraniadau Ariannol diweddaraf ym mhob cyfarfod hyd nes daw'r cyfnod clo i ryw fath o derfyn. Mae hyn yn golygu trosglwyddo arian a glustnodwyd o dan y pennawd hwn yn y Gyllideb ar gyfer 2020-21 i'w rannu yn y flwyddyn ariannol newydd. Cytunwyd hefyd i roi ystyriaeth i gais arbennig cyn y "fffenest newydd" os daw un gerbron. Cytunwyd i roi "Cyfraniadau Ariannol" fel eitem ar yr Agenda yn fisol er mwyn ceisio cyfarfod ag anghenion Cymdeithasau. Atgoffir Cymdeithasau fod hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn hanfod i dderbyn nawdd gan y Cyngor, un unol a pholisi Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg.

12. Gohebiaeth:

- i. **Cysylltu gyda'ch Cymuned** – nodwyd derbyn arweiniad gan Lywodraeth Cymru
- ii. **Cofrestrfa Tir** – nid oedd yr aelodau'n ymwybodol o dir ym meddiant y Cyngor gan y cymerwyd holl eiddo Cyngor Tref Y Bala gan Gyngor Gwynedd yn ystod ail drefnu llywodraeth leol. Cytunwyd i holi John Caradog Williams am wybodaeth bellach.
- iii. **Llythyr parod** Cyngor Tref Nefyn at Julie James AS: cytunwyd i anfon hwn ymlaen at Julie James o dan enw Cyngor Tref Y Bala.
- iv. **Ymgynghoriad Parc Cenedlaethol Eryri** ar dwristiaeth gynaliadwy: trafodwyd a chytunwyd i ymateb trwy ddweud fod cyfyngu twristiaeth yn ardal Yr Wyddfa yn mynd i yrru mwy o dyrfaoedd i ardaloedd eraill y Parc. Mae problemau parcio, llanast a dinistrio'r amgylchedd yn bodoli o gwmpas Llyn Tegid, a dylid peidio symud problem o un lle i le arall.
- v. **Adroddiad Cyngor Tref Y Bermo:** nodwyd derbyn adroddiad, ac nad oes ystyriaeth o fewnlifiad nac o effaith ar fywiogrwydd cymdeithasol a'r iaith Gymraeg. Sylwyd nad oes enw ar y ddogfen ac nad oes ymgynghori wedi bod gyda threthdalwyr yr ardal, ac nad ydyw'n glir beth oedd y remit ar gyfer comisiynu'r adroddiad.

13. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad byr o dan yr amgylchiadau.

14. **Asedau'r Cyngor:** Derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands fod eu cyflwr yn dderbyniol.

15. Materion lleol y Cynghorwyr Tref

- i. Baw cŵn ar hyd llwybr yr afon - tynnir sylw Cynghorydd Dilwyn Morgan at hyn.
- ii. Golau lamp ddim yn gweithio yn Heol Tegid – bydd y Clerc yn cysylltu gydag Adran y Priffyrdd.
- iii. Arwyddion angen eu glanhau - bydd y Clerc yn cysylltu gydag Adran y Priffyrdd.

16. **Dyddiad a lleoliad** y cyfarfod nesaf: 4/3/21 am 7.00 pm (trwy gyfrwng Teams)